**Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mawrth, 29 Hydref 2002**

Dechreuodd y Cyfarfod am 2.00pm

**Gwnaed datganiad gan y Llywydd am ei ymweliad â Brwsel i fynd i 6ed Cynhadledd Flynyddol CALRE (Cynhadledd y Cynulliadau Rhanbarthol sydd â Phwerau Deddfwriaethol)**

**2.01pm**
**Ethol aelodau i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol -** ***Ni chyflwynwyd cynnig.***

**2.01pm**
**Ethol aelodau i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
*NDM1188* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Pauline Jarman (Plaid Cymru) i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn lle Brian Hancock (Plaid Cymru).

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 41
**Derbyniwyd y cynnig.**

**2.02pm**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog.**
Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 10 yn ôl.

**2.51pm**
**Datganiad: Gwnaed datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg am Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru.**

**3.15pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
**Gan fod mwy na 10 aelod yn gwrthwynebu'r Datganiad Busnes,** cynhaliwyd pleidlais:
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 22; Cyfanswm 49
Cytunwyd ar y datganiad busnes.

**3.25pm**
**Pwynt o Drefn**
**Phil Williams** ar drefn gwelliannau.
Cadarnhaodd **y Llywydd** fod y mater hwn yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Busnes.

**3.28pm**
**Aeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair.**

**Cynnig i nodi Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru**
*NDM1187* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:
Yn nodi Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru ar gyfer 2001-02, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Gorffennaf 2002, ac y dosbarthwyd copïau personol ohono i holl Aelodau'r Cynulliad.

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn nodi'n ofalus y sylwadau a wnaeth Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru yn yr adroddiad.

Gwnaeth mwy na 3 Aelod gais i'r gloch gael ei chanu.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 8; Ymatal 13; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd Gwelliant 1.**

**Y cynnig**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig.**

**3.48pm**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal - *gohiriwyd yr eitem hon o ddydd Mercher, 23 Hydref 2002*.**
***NDM1184 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Gan weithredu o dan Reol Sefydlog 6.5, yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Derbyniwyd y cynnig.**

**4.28pm**
**Dadl Plaid Cymru**
*NDM1186* - 1. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar lywodraeth y DU:

a) i dynnu'n ôl ei chefnogaeth i unrhyw bosibilrwydd neu fygythiad o ragymosod yn filwrol ar Irac ac i dderbyn y gallai ymosodiad o'r fath fod yn groes i siarter y Cenhedloedd Unedig;
b) i weithio gydag aelodau eraill y Cenhedloedd Unedig i geisio penderfyniad ar ddychwelyd yr arolygwyr arfau i Irac; ac
c) i ddefnyddio'i dylanwad i geisio datrys y gwrthdaro rhwng Israel a'r Palestiniaid.

2. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu hefyd y byddai gweithredu milwrol unochrog yn erbyn Irac

yn effeithio’n ddifrifol ar ddiogelwch y Dwyrain Canol ac yn taro economi Cymru a’r Deyrnas Unedig yn sylweddol.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu popeth ar ôl 'Mae’r Cynulliad Cenedlaethol' a rhoi, yn lle hynny: ',er yn dymuno annog Llywodraeth Ei Mawrhydi i geisio trechu terfysgaeth ryngwladol trwy gynghreiriau a’r Cenhedloedd Unedig, yn cydnabod:
a) nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfrifoldeb dros Faterion Tramor; a
b) y byddai’n fwy buddiol defnyddio amser ac egni’r Cynulliad Cenedlaethol i geisio gwella gwasanaethau cyhoeddus er budd pobl Cymru.'

**Gwelliant 2 - Carwyn Jones (Pen-y-bont ar Ogwr)**
Dileu popeth ar ôl "lywodraeth y DU" yn y llinell gyntaf a rhoi, yn lle hynny:
a) i barhau â’i gwaith gydag aelodau eraill y Cenhedloedd Unedig i geisio cael penderfyniad ar anfon yr arolygwyr arfau yn ôl i Irac ac i sicrhau bod unrhyw ymgyrch filwrol yn erbyn Irac yn cydymffurfio â thelerau Siarter y Cenhedloedd Unedig; a
b) i barhau â’i ymdrechion i ddatrys yr anghydfod rhwng Israel a’r Palestiniaid.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 42; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd Gwelliant 1.**

**Gwelliant 2**
O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 15; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd Gwelliant 2.**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**
O blaid 35; Ymatal 0; Yn erbyn 15; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.34pm**

******************

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am

2.00pm ddydd Mercher, 30 Hydref 2002

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a osodwyd ar 28 Hydref 2002**

Report of the Business Committee - Declaration of Interests in Plenary Proceedings - LD1635 Dim Copi Cymraeg ar gael

Report of the Business Committee - Arising from ARP Report - LD1636 Dim Copi Cymraeg ar gael

Report of the Business Committee - Plenary Timings - LD1637 Dim Copi Cymraeg ar gael